***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 764 (Cy.73)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *14 Mawrth 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *20 Mawrth 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 76(4) a 140(4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), ac wedi iddo ymgynghori â'r cynrychiolwyr llywodraeth leol hynny sydd yn ei farn ef yn briodol, yn unol ag adran 76(5) o'r Ddeddf uchod, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) (Diwygio) 2006 a deuant i rym ar 20 Mawrth 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau

**2.** Mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2006 neu ar ôl hynny, mae rheoliad 3 o Reoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000(**3**), wedi'i ddiwygio —

(a) drwy hepgor paragraffau (e) ac (f); a

(b) drwy ychwanegu, ar y diwedd,—

“(k) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.”

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 2000/718 (Cy.25) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/706 (Cy.85).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

14 Mawrth 2006

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 84E o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn darparu i grant cynnal refeniw gael fod yn daladwy i gyrff penodedig. Mae corff penodedig yn unrhyw gorff sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer awdurdodau lleol ac a bennir mewn rheoliadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Grant Cynnal Refeniw (Cyrff Penodedig) (Cymru) 2000 drwy dynnu'r Public Private Partnerships Programme Limited a Syniad o'r rhestr o gyrff penodedig ac ychwanegu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r diwygiadau hyn yn effeithiol am y blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2006 neu ar ôl hynny.